Bitesize

# Yn erbyn y llif

| | |
|---|---|
| RHONA | Rhona sy 'ma'n fyw o Afon Hafren. Heddiw – llifogydd, a sut i'w rheoli nhw. Efallai eich bod chi'n meddwl taw adeiladu argaeau a chronfeydd yw'r ateb. Ond mae strategaethau meddal hefyd yn effeithiol, yn rhatach, gyda llai o effaith ar yr amgylchedd.<br><br>Siŵr eich bod chi'n meddwl beth sydd gyda maes parcio i wneud gyda llifogydd? Wel, mae'r maes parcio yma ar bwys Afon Hafren wedi ei rannu'n gylchfaoedd llifogydd, ac yn enghraifft o strategaeth rheoli feddal.<br><br>Mae'r ardal yma'n cael ei hystyried yn werth isel, ac felly caniateir iddi orlifo. Ond mae cartrefi, ysbytai a busnesau i gyd yn werth uchel, ac wedi eu hadeiladu'n bell oddi wrth gylchfaoedd llifogydd, neu'n cael eu gwarchod gan rwystrau amddiffyn rhag llifogydd. Mae manteision economaidd ac amgylcheddol i gylchfaoedd, am eu bod yn rhatach na chodi rhwystrau hyll, parhaol.<br><br>Mae cylchfaoedd gwerth isel fel yma yn y Quarry Park yn storio dŵr yn ystod llifogydd, sy'n gallu digwydd yn glou. Ond mae rhai pobl yn credu dylid cyfyngu neu atal adeiladu ar orlifdiroedd. |
| CAPTEN | Wel odyn, siŵr. Ond beth sy'n digwydd i adeiladau sydd yn y cylchfaoedd gwerth isel yn barod? A beth os oes rhaid adeiladu yno? Beth wedyn? |
| RHONA | Felly, beth yw strategaethau peirianneg galed? Ystyr peirianneg galed yw codi strwythurau – er enghraifft, rhwystrau sy'n bosib eu codi neu eu tynnu lawr yn glou, neu waliau concrid parhaol, sydd hefyd yn cael eu galw'n argloddiau. Mae rhai'n credu taw rhain yw'r ateb gorau. |
| CAPTEN | Ie, ond mae eraill yn credu eu bod nhw dim ond yn sianelu'r dŵr i'r gymuned nesaf yn is i lawr y dyffryn – hynny yw, symud y broblem, yn lle ei datrys hi. |
| RHONA | Strategaeth beirianneg feddal sy'n cael effaith bositif ar yr amgylchedd yw coedwigo. Trwy ailblannu coed, mae llystyfiant yn atal y glaw ac yn cael gwared â'r dŵr cyn iddo gyrraedd yr afon. |


© Copyright BBC

Dull arall eco-gyfeillgar yw i adfer mawnogydd fel yr un yma, drwy flocio draeniau gyda byrnau grug. Mae'r byrnau yma'n arafu llif trostir i'r afonydd. Mae tir mawnog yn storfa ddŵr dda, sy'n cynhyrchu ocsigen ac hyd yn oed yn denu bywyd gwyllt yn ôl.

CAPTEN — Mae coedwigo ac adfer mawnogydd yn iawn, ond mae unrhyw beth sy'n cael ei roi yn y ddaear yn effeithio ar beth sydd yna'n barod.

RHONA — Does neb moyn gweld y difrod amgylcheddol ac economaidd mae gorlifo yn ei achosi, ond mae llawer i'w drafod ar y ffordd orau i'w ddatrys.

CAPTEN — Wel, mae fe i gyd yn dibynnu gyda pwy ydych chi'n siarad. Byddai'r amgylcheddwyr yn ffafrio'r dull meddal, ond gofynnwch i ffarmwr, neu fusnes lleol, ac mae'n stori hollol wahanol. Felly, mae yna ddadleuon o blaid ac yn erbyn y ddwy ochr.

Dyma'ch capten yn dymuno hwyl fawr am y tro. Sut oedd hwnna? Alla'i recordio fe eto, os wyt ti moyn?



© Copyright BBC